


**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

# Mannau ar gyfer cynnal digwyddiadau
# Telerau ac amodau

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Cyswllt Cyntaf

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2016**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

# Cynnwys


01. Diffiniadau a dehongli ........ 1
02. Trwydded a Lleoliad ........ 3
03. Noddi Ddigwyddiad a Gwahoddiadau ........ 4
04. Canllawiau Digwyddiadau ........ 5
05. Ein Rhwymedigaethau ........ 6
06. Eich Rhwymedigaethau ........ 7
07. Enwau Gwesteion, Ymddygiad Gwesteion a Diogelwch ........ 10
08. Newidiadau ........ 11
09. Iechyd a Diogelwch ........ 13
10. Eiddo Deallusol ........ 14
11. Gohirio a Chanslo ........ 15
12. Yswiriant ........ 16
13. Indemniad ........ 17
14. Digwyddiadau Tu Hwnt i Reolaeth Resymol ........ 18
15. Hawliau Trydydd partïon ........ 19
16. Cyhoeddiadau ........ 20
17. Amrywiad ........ 21
18. Dim cymhwyso ........ 22
19. Cytundeb Cyfan ........ 23
20. Cyfrinachedd ........ 24
21. Cyfraith Lywodraethol ac Awdurdodaeth ........ 25


AGORWYD GAN EI MAWRHYDI
OPENED BY HER MAJESTY THE



**Mae'r Telerau ac Amodau Digwyddiadau hyn yn gymwys i drefnwyr digwyddiadau a gaiff eu cynnal ar Yystâd y Cynulliad. Dylech eu darllen yn ofalus a gwnewch yn siŵr eich bod yn eu deall cyn cytuno i fod yn drefnydd digwyddiad a gaiff ei gynnal ar ystâd y Cynulliad.**

# 01. Diffiniadau a dehongli

Yn y telerau ac amodau hyn, mae i'r geiriau canlynol yr ystyron canlynol:

Ystyr **"Cynulliad"** yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae **"Ystâd y Cynulliad"** yn cynnwys y Senedd, Tŷ Hywel, y Pierhead a Swyddfa Bae Colwyn.

Mae **"Trafodion y Cynulliad"** yn cynnwys cyfarfodydd pwyllgorau a'r Cyfarfod Llawn (byddwn yn eich hysbysu pan fydd Trafodion y Cynulliad yn digwydd);

Ystyr **"Cyfnod y Digwyddiad"** yw'r cyfnod pan fydd y Lleoliad ar gael i chi, fel y nodir gan ein Tîm Digwyddiadau (ond mae'n werth nodi na fyddwn fel arfer yn cytuno i unrhyw Gyfnod y Digwyddiad sy'n ymestyn tu hwnt i 20:00).

Ystyr y **"Tîm Digwyddiadau"** yw ein staff sy'n gyfrifol am gynllunio, cymeradwyo a rheoli digwyddiadau a gaiff eu cynnal ar Ystâd y Cynulliad.

Ystyr **"Lleoliad"** yw y lleoliad ar ystâd y Cynulliad, lle y cynhelir y digwyddiad, fel y caiff ei bennu gan ein Tîm Digwyddiadau.

Ystyr **"rydym"**, **"ein"**, **"ni"** a **"ninnau"** yw Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Ystyr **"eich"** a **"chi"** yw'r person / cwmni / gymdeithas sydd am drefnu digwyddiad a gynhelir ar ystâd y Cynulliad (ac er mwyn osgoi ansicrwydd, nid yw'n golygu Aelod Cynulliad sy'n noddi'r digwyddiad).

Mae rhwymedigaeth arnoch chi i beidio â gwneud unrhyw weithred, fater neu beth yn cynnwys rhwymedigaeth i beidio ag aachosi neu ganiatáu i weithred, mater neu beth o'r fath gael eu gwneud.

# 02. Trwydded a Lleoliad

**02.01.** Rydym yn rhoi trwydded i chi i ddefnyddio'r Lleoliad yn ystod Cyfnod y Digwyddiad.

**02.02.** Yn gyfnewid, rydych yn addo talu un bunt (£1.00) i ni os gofynnwn amdani.

**02.03.** Mae Ystâd y Cynulliad yn cynnwys adeiladau a ddarperir yn bennaf ar gyfer y cyhoedd. Cyn i chi gytuno i'r telerau ac amodau hyn, bydd ein Tîm Digwyddiadau wedi rhoi gwybod i chi a fydd gan y cyhoedd yn gallu cael mynediad cyffredinol i'r Lleoliad yn ystod Cyfnod y Digwyddiad. Os bydd y cyhoedd yn gallu cael mynediad o'r fath, mae'n rhaid i chi sicrhau nad yw'r digwyddiad yn ymyrryd â mynediad cyhoeddus.

# 03. Noddi Ddigwyddiad a Gwahoddiadau

**03.01.** Mae'n rhaid i'ch digwyddiad gael ei noddi gan:

(a) Aelod Cynulliad presennol,

(b) Grŵp o Aelodau'r Cynulliad presennol,

(c) Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, neu

(d) unrhyw gyfuniad o'r rhai y cyfeirir atynt uchod yn 3.1(a) i (c).

**03.02.** Byddwn yn penderfynu ar unrhyw gwestiwn ynghylch a yw eich noddwr yn dod o fewn cymal 3.1.

**03.03.** Os bydd eich noddwr yn tynnu'n ôl neu os na fydd yn dod o fewn cymal 3.1, mae'n rhaid i chi ein hysbysu ar unwaith. Os na chaiff unrhyw noddwr amgen ei gadarnhau cyn y digwyddiad, rydym yn cadw'r hawl i ganslo'r digwyddiad.

**03.04.** Mae'n rhaid cynnwys enw(au) y noddwr / noddwyr ar yr holl wahoddiadau i'r digwyddiad.

**03.05.** Ni ddylai gwahoddiadau i'r digwyddiad gynnwys logo'r Cynulliad.

**03.06.** Mae'n rhaid i'r noddwr, neu gynrychiolydd awdurdodedig y noddwr, fod yn bresennol yn y digwyddiad.

# 04. Canllawiau Digwyddiadau

**04.01.** Mae'n rhaid i'r digwyddiad fod yn agored i holl Aelodau'r Cynulliad.

**04.02.** Mae'n rhaid i'r digwyddiad fodloni o leiaf un o'r meini prawf a ganlyn:

(a) hybu a datblygu ymwybyddiaeth y cyhoedd o waith y Cynulliad a/neu'r prosesau democrataidd a'u hannog i ymgysylltu mwy â'r rhain;

(b) cynnig llwyfan i ddylanwad Cymru gartref a thramor;

(c) hyrwyddo digwyddiadau ac iddynt arwyddocâd hanesyddol, cyfansoddiadol neu ddiwylliannol sydd â chysylltiad amlwg â democratiaeth a / neu hanes, rôl neu waith y Cynulliad.

# 05. Ein Rhwymedigaethau

Byddwn ni:

**05.01.** ar ddechrau Cyfnod y Digwyddiad, yn sicrhau mynediad i chi i'r Lleoliad, heb rwystrau, ac mewn cyflwr da, glân a thaclus;

**05.02.** yn caniatáu mynediad i westeion a chyfranogwyr eraill yr ydych wedi ein hysbysu ni amdanynt ymlaen llaw (ond gweler gymal 7 hefyd);

**05.03.** yn darparu staff diogelwch fel yr ystyriwn sy'n briodol;

**05.04.** cydymffurfio â'r holl gyfreithiau sy'n gymwys.

# 06. Eich Rhwymedigaethau

Byddwch chi'n:

**06.01.** defnyddio'r Lleoliad i ddim pwrpas ond cynnal y digwyddiad;

**06.02.** dilyn cyfarwyddiadau rhesymol ein staff yn ystod Cyfnod y Digwyddiad;

**06.03.** sicrhau na fyddwch yn defnyddio'r Lleoliad at ddibenion: (i) gohebiaeth bersonol, busnes neu fasnachol; (ii) gweithgarwch plaid wleidyddol o unrhyw fath, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, ymgyrchu ar gyfer cefnogaeth neu bleidleisiau dros blaid wleidyddol, codi arian i blaid wleidyddol, recriwtio aelodau i blaid a hysbysebu cyfarfodydd plaid wleidyddol; (iii) ymgyrchu dros ganlyniad penodol mewn unrhyw refferendwm; (iv) ymgyrchu dros ethol neu ailethol ymgeiswyr penodol ar gyfer unrhyw swydd gyhoeddus (gan gynnwys yr Aelod Cynulliad dan sylw). A byddwn yn penderfynu unrhyw gwestiwn ynghylch a yw'r digwyddiad yn dod o fewn unrhyw un o'r dibenion hyn;

**06.04.** sicrhau na fyddwch yn defnyddio'r Lleoliad ar gyfer gweithgareddau ar gyfer enillion ariannol (gan gynnwys codi arian o unrhyw fath), ac ni chaniateir i unrhyw drafodion ariannol ddigwydd fel rhan o'r digwyddiad, ac ni chaiff unrhyw arddangosfa gynnwys unrhyw arwydd o bris;

**06.05.** sicrhau nad ydych yn defnyddio'r Lleoliad ar gyfer gweithgareddau sy'n beryglus, yn dramgwyddus, yn anghyfreithlon neu anfoesol, neu sy'n debygol o achosi niwsans neu annifyrrwch i drigolion lleol;

**06.06.** sicrhau a chodir tâl ar unrhyw westeion sy'n dod i'r digwyddiad;

**06.07.** sicrhau na chaniateir unrhyw fath o ffilmio neu recordio neu dynnu lluniau â chamera o'r Lleoliad heb ein caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw, ac yn amodol ar delerau o'r fath fel y caiff eu pennu gennym ni;

**06.08.** sicrhau, os yw'r digwyddiad yn y Senedd a bod Trafodion y Cynulliad yn digwydd: (i) ni chaiff unrhyw offer clyweledol eu profi, (ii) na cherddoriaeth neu offerynnau eu chwarae, a (iii) na thraddodir araith ac na wneir cyflwyniad, heb ganiatâd ysgrifenedig gennym ymlaen llaw;

**06.09.** cydymffurfio â deddfwriaeth iechyd a diogelwch (ond gweler gymal 9 hefyd);

**06.10.** peidio â gwahaniaethu yn erbyn, aflonyddu neu erlid unrhyw berson o fewn ystyr Deddf Cydraddoldeb 2010;

**06.11.** peidio â dod ag anifeiliaid i mewn i'r Lleoliad (heblaw cŵn cymorth) heb ein caniatâd ni ymlaen llaw;

**06.12.** eich bodloni eich hun ynghylch addasrwydd y cyfleusterau yn y Lleoliad cyn cytuno i'r telerau a'r amodau hyn , ac na fyddwn ni'n gyfrifol am unrhyw gyfleusterau annigonol;

**06.13.** sicrhau na fyddwch yn gwneud unrhyw newidiadau neu ychwanegiadau i'r Lleoliad heb ein caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw;

**06.14.** sicrhau na ddefnyddir unrhyw ddeunydd, offer, brandio, hysbysebu na gwahoddiadau i ddigwyddiad, mewn fformat electronig neu fel arall, heb ein caniatâd ni ymlaen llaw;

**06.15.** os ydych yn dangos arddangosfa, yn darparu eich technegwyr eich hun i osod eich eitemau arddangos a'u tynnu i lawr;

**06.16.** trefnu unrhyw anghenion arlwyo neu luniaeth drwy ein harlwywyr awdurdodedig yn unig (ond gweler cymal 6.17);

**06.17.** sicrhau na fyddwch yn dod ag unrhyw fwyd neu ddiod i'r Lleoliad heb ein caniatâd ni ymlaen llaw (ac os ydym yn rhoi caniatâd o'r fath, mae'n rhaid i chi gydymffurfio ag unrhyw amodau a bennir gennym o ran y bwyd neu'r diod);

**06.18.** pan fyddwn yn rhoi caniatâd o ran bwyd neu ddiod o dan gymal 6.17 uchod:

(a) yn sicrhau bod unrhyw eitem o fwyd a gaiff ei chludo i Ystâd y Cynulliad at ddiben y digwyddiad yn dod o ffynhonnell sydd wedi'i chofrestru fel busnes bwyd gyda'r awdurdod lleol, a'i baratoi, ei gadw a'i gludo gan y busnes hwnnw; a
(b) yn sicrhau bod gan y busnes bwyd cofrestredig yswiriant atebolrwydd cynnyrch digonol ac yswiriant atebolrwydd cyhoeddus i wneud iawn am unrhyw rwymedigaethau sy'n codi yn y gyfraith o ran y bwyd neu'r diod a ddaw i Ystâd y Cynulliad;

**06.19.** eich bod, ar ddiwedd Cyfnod y Digwyddiad, yn tynnu eich holl offer a deunyddiau eraill i lawr a gadael y Lleoliad mewn cyflwr da, glân a thaclus;

**06.20.** ein talu ni am y gost o gywiro pob difrod i'r Lleoliad yn ystod Cyfnod y Digwyddiad (ac eithrio: (i) traul a defnydd teg; (ii) difrod a achosir gan risg sydd wedi'i gwmpasu yn ein hyswiriant ni; a (c) difrod a achosir gennym ni);

**06.21.** cydymffurfio â'r holl gyfreithiau sy'n gymwys.

# 07. Enwau Gwesteion, Ymddygiad Gwesteion a Diogelwch

**07.01.** Mae'n rhaid ichi roi rhestr inni o enwau'r gwesteion a'r cyfranogwyr eraill a fydd yn y digwyddiad erbyn 17:00 dydd Iau yr wythnos cyn eich digwyddiad.

**07.02.** Cewch ddiwygio'r rhestr o enwau hyd at 48 awr cyn dechrau'r digwyddiad.

**07.03.** Bydd ein staff diogelwch yn cynnal y gwiriadau diogelwch fydd eu hangen wrth y fynedfa i Ystâd y Cynulliad yn unol â'r hyn yr ystyria'r staff diogelwch sy'n briodol.

**07.04.** Rydym yn cadw'r hawl i wrthod mynediad i unrhyw un ar y sail eu bod yn gwisgo, neu mewn meddiant o ddillad protest, baneri protest neu eitemau protest eraill, nad ydym wedi cytuno yn ysgrifenedig arnynt ymlaen llaw.

**07.05.** Rydym yn cadw'r hawl i ofyn i westai ymadael (neu wrthod mynediad i) unrhyw westai, neu unrhyw gyfranogwr arall yn y digwyddiad sy'n ymddwyn mewn ffordd a allai, yn ein barn resymol ni:

(a)achosi i'r heddwch gael ei dorri;

(b)ei ystyried i fod yn niweidiol, yn annymunol neu'n sarhaus;

(c)niweidio enw da'r Cynulliad; neu

(d)amharu ar fusnes y Cynulliad;

# 08. Newidiadau

**08.01.** Os gwnewch chi gais i wneud unrhyw newidiadau i'r digwyddiad, mae'n rhaid ichi wneud hynny o fewn y terfynau amser canlynol. Byddwn yn ymdrechu i wireddu eich cais, ond ni fyddwn o dan unrhyw rwymedigaeth i wneud hynny.

**08.02.** Newidiadau mawr – 10 diwrnod gwaith clir cyn y digwyddiad

## Ystyr newidiadau mawr yw:

- Newidiadau i offer neu wasanaethau sy'n defnyddio contractwyr allanol a/neu fydd angen mewnbwn sylweddol gennym ni.
- Cynnydd neu ostyngiad mewn niferoedd a fydd yn golygu bod angen symud y digwyddiad i rywle arall.
- Newidiadau mawr i amseriad y digwyddiad a allai effeithio ar fusnes y Cynulliad neu amser dechrau a gorffen y digwyddiad.

**08.03.** Newidiadau canolig – 7 diwrnod gwaith clir cyn y digwyddiad

## Ystyr newidiadau canolig yw:

- Newidiadau i unrhyw gyflwyniadau electronig neu glyweledol i'w defnyddio yn y digwyddiad.
- Newidiadau i offer neu wasanaethau a ddarperir gennym ni neu ein contractwyr ar y safle.
- Newidiadau sylweddol i gynllun y Lleoliad.

- Mân addasiadau i raglen y digwyddiad nad ydynt yn effeithio ar yr amser dechrau a gorffen.

**08.04.** Mân newidiadau – ar ddiwrnod y digwyddiad

## Ystyr mân newidiadau yw:

- •Newidiadau dibwys i gynllun y Lleoliad.

# 09. Iechyd a Diogelwch

**09.01.** Mae'n rhaid i chi ein hysbysu'n brydlon am unrhyw beryglon iechyd a diogelwch sy'n codi (neu a allai godi) mewn cysylltiad â'r digwyddiad.

**09.02.** Mae'n rhaid i chi gwblhau asesiad risg iechyd a diogelwch ar ffurf sy'n dderbyniol i ni. Mae'n rhaid i chi roi'r asesiad risg hwn inni o leiaf ddeg diwrnod gwaith clir cyn Cyfnod y Digwyddiad.

**09.03.** Yn ystod Cyfnod y Digwyddiad, mae'n rhaid i chi gydymffurfio ag unrhyw fesurau iechyd a diogelwch a gaiff eu gweithredu gennym ni yn y Lleoliad.

**09.04.** Ni chewch ddod â'r canlynol i'r Lleoliad:

(a)unrhyw falwnau latecs, arfau neu byrotechnegau; neu

(b)unrhyw beth arall y byddwn yn eich hysbysu ohono cyn Cyfnod y Digwyddiad.

**09.05.** Mae'n rhaid i allanfeydd tân gael eu cadw'n glir bob amser ac mae'n rhaid sicrhau nad oes ceblau rhydd a allai fod yn beryglus o ran iechyd a diogelwch.

**09.06.** Mae'n rhaid i chi gydymffurfio â gofynion Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati 1974 ac unrhyw deddfau, gorchmynion, rheoliadau a chodau ymarfer eraill sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch, ac a allai fod yn gymwys i bersonau sydd yn y Lleoliad yn ystod Cyfnod y Digwyddiad.

# 10. Eiddo Deallusol

**10.01.** Byddwch yn sicrhau nad yw unrhyw ddeunydd hysbysebu neu ddeunydd neu offer arall (p'un ai ar ffurf electronig neu fel arall) a gaiff ei ddefnyddio mewn cysylltiad â'r digwyddiad yn torri unrhyw hawlfraint, nod masnach neu hawl perchnogol unrhyw berson.

**10.02.** Dim ond os dangosir eu bod yn cydymffurfio ag unrhyw gyfundrefn drwyddedu berthnasol ac os cytunir ymlaen llaw gyda'n Tîm Digwyddiadau y caniateir perfformiadau byw o unrhyw fath neu gerddoriaeth sydd wedi ei recordio.

# 11. Gohirio a Chanslo

**11.01.** O bydd unrhyw sefyllfa'n codi yn ystod Cyfnod y Digwyddiad, a fydd, yn ein barn resymol ni, gyfystyr â:

(a)thorri'r telerau ac amodau hyn gennych chi,

(b)perygl i ddiogelwch y cyhoedd, neu

(c)tarfu ar fusnes y Cynulliad,

gallem reoli'r sefyllfa yn y fath fodd ac i'r fath raddau yr ystyriwn sy'n angenrheidiol (gan gynnwys yr hawl i ohirio neu ganslo'r digwyddiad).

**11.02.** Os bydd y naill barti neu'r llall yn torri Telerau ac Amodau'r Digwyddiadau, neu'r Telerau ac Amodau Bwyd, caiff y parti arall derfynu ei gytundeb i'r Telerau ac Amodau Digwyddiad a/neu'r Telerau ac Amodau Bwyd ar unwaith drwy roi hysbysiad i'r parti sydd wedi eu torri.

**11.03.** Os caiff y cytundeb i'r Telerau ac Amodau Digwyddiad a /neu'r Telerau ac Amodau Bwyd eu terfynu yn unol â chymal 11.2 yn ystod digwyddiad, daw y digwyddiad i ben ar unwaith a bydd y naill barti a'r llall yn gwneud eu gorau i gael y gwesteion a chyfranogwyr eraill i adael y Lleoliad yn ddiogel a heb oedi.

# 12. Yswiriant

**12.01.** Mae'n rhaid i chi gael yswiriant priodol mewn perthynas â'ch rhwymedigaethau sy'n codi o dan y telerau ac amodau hyn.

**12.02.** Mae'n rhaid i chi ddarparu tystiolaeth o yswiriant os gofynnwn amdani.

# 13. Indemniad

**13.01.** Mae'n rhaid i chi ein indemnio yn erbyn yr holl rwymedigaethau, costau, treuliau, iawndal a cholledion (gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, gostau llog, cosbau, cyfreithiol a chostau proffesiynol rhesymol eraill) a ddioddefwyd gennym yn deillio o, neu mewn cysylltiad ag:

(a)unrhyw hawliad a wneir yn ein herbyn gan drydydd parti am amharu ar unrhyw hawliau gwirioneddol neu honedig i eiddo deallusol trydydd parti gwirioneddol neu honedig (lle mae honiad o'r fath yn deillio o ddefnyddio'r Lleoliad, neu mewn cysylltiad â'ch defnydd o'r Lleoliad);

(b) achos o dorri unrhyw un o gymalau 6, 9 a 10;

(c)unrhyw hawliad a wneir yn ein herbyn gan drydydd parti am anaf gwirioneddol neu honedig neu golled a achosir gan fwyd a gaiff ei gludo i'r Lleoliad, neu ei baratoi yno gennych chi neu eich asiantau.

# 14. Digwyddiadau Tu Hwnt i Reolaeth Resymol

**14.01.** 14.1Ni fydd unrhyw barti yn torri Telerau ac Amodau Digwyddiadau na Thelerau ac Amodau Bwyd nac yn atebol am oedi wrth ymgymryd neu fethu ymgymryd â'i rwymedigaethau os bydd oedi neu fethiant o'r fath yn deillio o ganlyniad i ddigwyddiadau, amgylchiadau neu achosion y tu hwnt i'w rheolaeth resymol. Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd gan y parti yr effeithir arno hawl i estyniad rhesymol o amser (fel y cytunwyd rhwng y partïon) ar gyfer ymgymryd â rhwymedigaethau o'r fath. Os bydd y cyfnod o oedi neu ddiffyg yn parhau y tu hwnt i'r amser rhesymol hwnnw, caiff y naill barti derfynu ei gytundeb i Delerau ac Amodau Digwyddiadau a Thelerau ac Amodau Bwyd ar unwaith.

# 15. Hawliau Trydydd partïon

**15.01.** Ni fydd gan unrhyw berson nad yw'n rhan o'r Telerau ac Amodau Digwyddiadau unrhyw hawliau o dan Ddeddf Contractau (Hawliau Trydydd Partïon) 1999 i orfodi unrhyw un o'r telerau.

# 16. Cyhoeddiadau

**16.01.** Rhaid ichi beidio â gwneud unrhyw gyhoeddiad ynghylch eich defnydd o'r Lleoliad heb ein caniatâd ni ymlaen llaw.

**16.02.** 16.2 Mae'n rhaid cael ein cymeradwyaeth ni i unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd y bwriadwch ei ddefnyddio o leiaf ddeg diwrnod gwaith cyn Cyfnod y Digwyddiad. Os byddwch yn methu â chydymffurfio, rydym yn cadw'r hawl i ganslo'r digwyddiad.

# 17. Amrywiad

**17.01.** Dim cymhwysoThe Events Terms and Conditions constitute the entire agreement between you and us and they supersede and extinguish all previous agreements and representations and understandings between you and us (whether written or oral) relating to hosting events on the Assembly Estate.

# 18. Dim cymhwyso

**18.01.** Mae'r Telerau ac Amodau Digwyddiadau yn bersonol i chi a ninnau. Ni chewch chi na ninnau gymhwyo na throsglwyddo unrhyw hawliau a rhwymedigaethau oddi tanynt.

# 19. Cytundeb Cyfan

**19.01.** Y Telerau ac Amodau Digwyddiadau yw yr holl gytundeb rhyngoch chi a ninnau ac maent yn disodli ac yn dileu pob cytundebau a sylwadau a dealltwriaethau blaenorol rhyngoch chi a ninnau (boed yn ysgrifenedig neu ar lafar) sy'n ymwneud â chynnal digwyddiadau ar Ystâd y Cynulliad.

# 20. Cyfrinachedd

**20.01.** Mae pob parti yn cytuno na fydd ar unrhyw adeg yn datgelu i unrhyw berson unrhyw wybodaeth gyfrinachol yn ymwneud â busnes, materion, cwsmeriaid, cleientiaid neu gyflenwyr y parti arall, ac eithrio fel y caniateir o dan gymal 20.2.

**20.02.** Caiff pob parti ddatgelu gwybodaeth gyfrinachol y parti arall:

(a)i'w weithwyr, swyddogion, cynrychiolwyr neu gynghorwyr sydd angen gwybodaeth o'r fath at ddibenion arfer hawliau'r parti neu gyflawni ei rwymedigaethau o dan y telerau ac amodau hyn, neu mewn cysylltiad â hwy. Bydd pob parti yn sicrhau bod ei gyflogeion, swyddogion, cynrychiolwyr neu gynghorwyr y mae'n datgelu gwybodaeth gyfrinachol y parti arall iddynt yn cydymffurfio â'r cymal 20 hwn;

(b)fel y gallai fod yn ofynnol drwy gyfraith, llys o awdurdodaeth gymwys neu unrhyw awdurdod llywodraethol neu rheoleiddio.

# 21. Cyfraith Lywodraethol ac Awdurdodaeth

**21.01.** Caiff y Telerau ac Amodau Digwyddiadau eu llywodraethu gan gyfraith Cymru a Lloegr, fel y mae'n gymwys yng Nghymru.

**21.02.** Rydym ni ac rydych chi'n cytuno y bydd gan lysoedd Cymru a Lloegr, yn eistedd yng Nghymru, awdurdodaeth neilltuedig i ddatrys unrhyw anghydfod neu hawliad sy'n deillio o'r Telerau ac Amodau Digwyddiad neu sy'n gysylltiedig â hwy.